Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall a gwirio eich Cyfrifiad Treth P800

Mae'r nodiadau sydd wedi eu rhifo isod yn cyd-fynd â'r golofn *Gweler y Nodyn* ar eich Cyfrifiad Treth.

2. Incwm a'r dreth a dalwyd

Mae hwn yn cynnwys incwm o enillion, pensiynau, budd-daliadau'r Wladwriaeth, Pensiwn y Wladwriaeth, llog ar gynilion, incwm o eiddo ar osod. Mae'r golofn *Treth a Dalwyd* yn dangos y dreth a ddidynnwyd o ffynonellau amrywiol o incwm, llai unrhyw dreth a ad-dalwyd gan eich cyflogwr, talwr eich pensiwn neu'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax**

3. Taliadau treuliau trethadwy

Mae hyn yn dangos rhan drethadwy unrhyw daliadau treuliau a wnaed i chi. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/working/bens-shares-tips/benefits.htm**

4. Buddiannau a threuliau a ddarperir gan eich cyflogwr

Os cewch eich talu ar gyfradd sy'n fwy na £8,500 y flwyddyn (gan gynnwys buddiannau a thaliadau treuliau) bydd buddiannau a threuliau a ddarperir gan eich cyflogwr yn agored i dreth. Er enghraifft, buddiannau ceir, tanwydd, buddiant meddygol, ffôn, buddiant ar fenthyciadau gan gyflogwyr a buddiant mewn nwyddau. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/working/bens-shares-tips/benefits.htm**

5. Didyniadau am dreuliau

Mae hwn yn dangos unrhyw dreuliau caniataol, er enghraifft tanysgrifiadau proffesiynol, treuliau teithio caniataol, amnewid neu gynnal a chadw offer neu wisgoedd gwaith arbennig (er enghraifft, oferôls) a ddefnyddir yn y gwaith. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/tax-allow-ees.htm**

6. Taliadau ar gyfer blwydd-dal ymddeol

Mae'r lwfans hwn ar gyfer taliadau a wnaed ar gyfer blwydd-dal yn hwyrach yn eich bywyd. Rhaid i'r cytundeb blwydd-dal neu'r cynllun ymddiriedolaeth gael ei gymeradwyo gan Gyllid a Thollau EM. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-pension.htm**

7. Budd-daliadau marwolaeth ac ymddeol

Gall rhai taliadau a wnaed i gymdeithasau cyfeillgar, undebau llafur a chwmnïau yswiriant gymhwyso am ryddhad. Fel arfer bydd hwn wedi cael ei roi i'ch cyflogwr, y cwmni yswiriant neu gymdeithas gyfeillgar ond pan nad yw hyn wedi digwydd, dangosir eich rhyddhad yma.

8. Lwfans personol

Dyma swm yr incwm y gallwch ei dderbyn cyn talu treth incwm.
Y Lwfansau Personol am y flwyddyn i 5 Ebrill 2010 yw:

- lwfans sylfaenol £6,475
- 65 – 74 oed £9,490 yn gostwng i £6,475 *
- 75 oed a hŷn £9,640 yn gostwng i £6,475 *

* Mae'r lwfansau hyn ar sail oedran ac os yw cyfanswm eich incwm yn fwy na £22,900 ar gyfer y flwyddyn i 5 Ebrill 2010 caiff eich lwfans ei leihau gan £1 am bob £2 o incwm. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/personal-allow.htm**

A oes angen i chi gysylltu â ni?

Bydd angen i chi gysylltu â ni dim ond os credwch fod eich Cyfrifiad Treth yn anghywir, gan ddefnyddio'r cyfeiriad neu'r rhif ffôn a ddangosir ar y Cyfrifiad Treth.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar ffurf sain a phrint bras. Os oes angen un o'r gwasanaethau hyn arnoch ac rydych yn defnyddio ffôn testun er mwyn cysylltu â ni yna:

- gwasgwch **18001** a'r rhif ffôn a ddangosir ar eich cyfrifiad ar gyfer y gwasanaeth Text Relay
- ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Trethi (Saesneg) ar **0845 302 1408**. Mae mwy o fanylion ar gael yn **www.hmrc.gov.uk/contactus/particular-needs**

Cael help a chyngor neu ddod o hyd i fwy o wybodaeth

Os bydd angen help neu gyngor arnoch neu ragor o wybodaeth, gallwch fynd at ymgynghorydd proffesiynol neu sefydliad gwirfoddol, er enghraifft canolfan Cyngor ar Bopeth. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn y *Llyfr Ffôn* neu ewch i **www.adviceguide.org.uk**

Oedi gan CThEM cyn defnyddio gwybodaeth

Os credwch y dylem eisoes fod wedi casglu'r dreth sy'n ddyledus yn eich Cyfrifiad Treth ar sail yr wybodaeth a oedd eisoes wedi ei rhoi i ni, naill ai gennych chi neu gan drydydd parti, yna mewn rhai amgylchiadau prin efallai y cytunwn i beidio â'i chasglu. Yn y mwyafrif o achosion byddwn yn gwneud hyn dim ond os byddwn wedi methu â defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y caiff ei derbyn ynddi. Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi neu os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, yna cysylltwch â ni.

Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae *Eich Siarter* yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/index.htm**

9. Lwfans Person Dall

Y lwfans am y flwyddyn i 5 Ebrill 2010 yw £1,890. Gallwch drosglwyddo unrhyw lwfans sydd dros ben a heb ei ddefnyddio i'ch priod neu eich partner sifil. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/blind-person-allow.htm**

10. Cyfraddau treth incwm

Dyma'r cyfraddau treth ar gyfer y flwyddyn i 5 Ebrill 2010:

- y gyfradd sylfaenol - 20% ar incwm hyd at £37,400
- y gyfradd uwch - 40% ar incwm dros £37,400

Os yw swm eich incwm trethadwy (heb gynnwys incwm o gynilion) yn £2,440 neu lai, yna trethir eich incwm o gynilion ar 10% hyd at £2,440. Trethir incwm difidendau ar 10% hyd at £37,400 ac ar 32.5% os yw'r incwm hwn yn fwy na £37,400. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chyfraddau treth ar gyfer blynyddoedd cynharach yn **www.hmrc.gov.uk/rates/it.htm**

11. Treth a dan dalwyd neu a ordalwyd mewn blynyddoedd cynharach

Byddwn yn dwyn ymlaen symiau rydych naill ai wedi tan dalu neu eu gordalu mewn blwyddyn gynharach pan nad ydym eto wedi ad-dalu i chi neu ei gasglu oddi wrthych er mwyn cyfrifo'r ffigur treth terfynol a dan dalwyd neu a ordalwyd yn nodyn 15 isod.

12. Lwfans Pâr Priod

Mae'r lwfans hwn yn dibynnu ar oed ac incwm. Gellir ei hawlio os ganwyd chi, eich priod neu eich partner sifil cyn 6 Ebrill 1935. Uchafswm y lwfans ar gyfer y flwyddyn i 5 Ebrill 2010 yw £6,965 a'r isafswm yw £2,670. Rhoddir y rhyddhad ar gyfer y lwfans hwn ar gyfradd o 10%. Os yw eich incwm yn fwy na £22,900 efallai caiff eich lwfans ei leihau yn yr un modd a Lwfansau Personol ar sail oedran, fel yr esbonnir yn nodyn 8 ar dudalen 1. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/married-allow.htm**

13. Taliadau cynhaliaeth

Gallwch hawlio rhyddhad dim ond os ganwyd naill ai chi neu eich cyn briod (neu bartner sifil) cyn 6 Ebrill 1935. Uchafswm y lwfans yw £2,670 ar gyfradd o 10%. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/maintenance-relief.htm**

14. Llog benthyciadau a dalwyd

Os ydych yn hawlio rhyddhad treth ar gyfer llog ar fenthyciadau pan ddefnyddiwyd yr arian a fenthycwyd at ddibenion neilltuol cyfyngedig yna dangosir swm y rhyddhad sy'n ddyledus i chi yma. Mae mwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/helpsheets/2009/hs340.pdf**

15. Treth net heb ei thalu

Os ydych wedi tan dalu treth o lai na £2,000, byddwn fel arfer yn ei gasglu drwy eich cod treth gan ddechrau o'r 6 o Ebrill nesaf. Os yw eich tan daliad yn fwy na £2,000 neu os nad oes gennych ddigon o incwm i gasglu'r dreth sy'n ddyledus byddwn yn cysylltu â chi er mwyn talu'r hwn yn uniongyrchol i ni. Gallwch gysylltu â ni os nad ydych am i ni ddiwygio eich cod treth er mwyn casglu'r dreth a tan dalwyd a byddwn yn trefnu eich bod yn talu hwn yn uniongyrchol i ni.

16. Treth net a ordalwyd

Os oes ad-daliad yn ddyledus i chi byddwn yn ei anfon atoch yn fuan (oni bai, fel eithriad, dygwyd yr ad-daliad ymlaen i Gyfrifiad Treth blwyddyn ddiweddarach sy'n dangos tan daliad treth). Mae fwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk/incometax/understand-refund.htm**

17. Atodiad ad-daliad

Dyma'r llog a dalwn pan fydd oedi cyn talu'r ad-daliad i chi. Bydd hyn yn gymwys dim ond o 31 Ionawr yn dilyn y flwyddyn y cododd yr ad-daliad.

Hawlfraint y Goron ©
CThEM 06/10